Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

30 Medi 2022

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trwyddedu yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / o bell trwy fideo-gynadledda, Dydd Iau, 6 Hydref 2022 am 9.30am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Materion Personol**

3. **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

4. **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol (Tudalennau 3 - 4)**

5. **Diweddariad Cyffredinol (Tudalennau 5 - 8)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trwyddedu
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU
a gynhaliwyd Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda

PRESENNOL: Cynghorydd Euros Davies (Cadeirydd), Cynghorwyr Cynghorydd Steve Davies, Cynghorydd Amanda Edwards, Cynghorydd Eryl Evans, Cynghorydd Keith Evans a/ac Cynghorydd Gwyn James

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr Matthew Vaux (Aelod o'r Cabinet)

Swyddogion yn bresennol: Mr Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad, Mrs Carwen Evans – Rheolwr Corfforaethol, Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad, Ms Helena Corke - Swyddog Trwyddedu, Mr Heddwyn Evans – Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd, Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(9.30am – 9.55am)

1 Cyflwyniad
Croesawodd y Cadeirydd bob Aelod i'r cyfarfod.

2 Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Endaf Edwards a Caryl Roberts am nad oeddent yn medru bod yn bresennol yn y cyfarfod.

3 Datgelu buddiannau personol/buddiannau sy'n rhagfarnu
Dim.

4 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2022 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny
CYTUNWYD cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2022.

Materion yn codi
6(iii) Gofynnwyd am gadarnhad ynghylch a anfonwyd y llythyr i'r Comisiwn Hapchwarae. Nodwyd y tybiwyd bod y llythyr wedi'i anfon, ond byddid yn gofyn am gadarnhad gan y swyddog pan fyddai'n dychwelyd.

5 Diweddariad Cyffredinol
Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar y Diweddariad Cyffredinol. Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno er mwyn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar faterion perthnasol o ran Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005.

Rhoddwyd y diweddariad a ganlyn ar faterion cysylltiedig â Deddf Trwyddedu 2003

- Eisteddfod Tregaron 2022
- Ceisiadau a gaiff eu Herio (Adolygiadau/Apeliadau)
- Archwilio Safleoedd a Thor Rheolau
- Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro
- Ymestyn yr Hawl i Werthu Alcohol - Rheoliadau Trwyddedu Alcohol (Coronafeirws)(Hawddfreintiau Rheoleiddio)(Diwygio) 2021
- Wythnos Genedlaethol Drwyddedu 2022
- Rhan B Materion Cysylltiedig â Deddf Gamblo 2005
- Llywodraeth Cymru - Niwed sy'n gysylltiedig â Gamblo

CYTUNWYD nodi'r sefyllfa bresennol.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 6 Hydref 2022

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Statudol)

Dyddiad y cyfarfod: 6 Hydref 2022

Teitl: Diweddariad Cyffredinol

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi diweddariad i'r Aelodau ynghylch materion perthnasol sy'n ymwneud â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005.

Cefndir

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal i adolygu a thrafod y gwaith o weithredu Deddf Trwyddedu 2003 a'r cynnydd a wneir o ran y ddeddf, ynghyd ag unrhyw faterion cysylltiedig sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor penodol hwn. Mae'r materion hyn yn cynnwys Deddf Gamblo 2005.

Materion sy'n gysylltiedig â Deddf Trwyddedu 2003

Eisteddfod Tregaron 2022

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron rhwng 31 Gorffennaf 2022 a 6 Awst 2022. Rhoddwyd trwydded mangre manwl i'r trefnwyr ac roedd y drwydded hon yn cynnwys y gweithgareddau trwyddedadwy a ganiatawyd ynghyd â chynllun a oedd yn amlinellu'r ardaloedd trwyddedig, gan gynnwys y prif Faes, Maes B, y safleoedd carafannau a gwersylla a siopau'r safleoedd hyn. Roedd y drwydded hefyd yn cynnwys atodlen weithredu fanwl. Trwy weithredu'r drwydded a'r amodau a oedd ynghlwm wrthi, rhoddwyd mesurau ar waith i sicrhau bod pawb yn cadw at y 4 amcan trwyddedu.

Hysbysebwyd y cais am y drwydded mangre yn unol â'r Ddeddf Drwyddedu ac ni dderbyniwyd yr un sylw.

Cyn yr Eisteddfod, cafwyd dau Hysbysiad o Ddigwyddiadau Dros Dro oddi wrth aelodau'r cyhoedd yn ein hysbysu o'u bwriad i gynnal digwyddiadau trwyddedadwy ar y tir o amgylch eu cartrefi yn ystod wythnos y Brifwyl. Hefyd, cyflwynodd mangre drwyddedig leol ddau Hysbysiad o Ddigwyddiadau Dros Dro yn ein hysbysu o'i bwriad i gynnal digwyddiadau ar ei safle yn ystod yr wythnos. Roedd eisoes gan y safle hwn drwydded mangre a oedd yn caniatáu iddo werthu alcohol tan 23:00 ond y bwriad yn ystod wythnos yr Eisteddfod oedd gweithredu tan 01:00.

Yn ogystal â'r sesiynau briffio ffurfiol rhwng y gwahanol asiantaethau a oedd yn cael eu cynnal yn ddyddiol ar safle'r Eisteddfod, roedd y tîm trwyddedu a Swyddog Trwyddedu'r Heddlu yn cysylltu â'i gilydd yn gyson. Ar ôl pryderon ar ddechrau'r wythnos bod pobl yn sefyll ac yn ymgasglu ar y ffordd y tu allan i'r ddau safle trwyddedig yn Nhregaron ei hunan, ymwelodd y Tîm Trwyddedu a swyddogion yr Heddlu â'r safleoedd dan sylw, ac yn dilyn trafodaethau, gosodwyd rhwystrau diogelwch yn y mannau prysur hynny lle'r oedd pobl yn debygol o grwydro allan i'r ffordd. Hefyd,

gwnaeth y swyddogion bob hyn a hyn ymweld â safleoedd trwyddedu yn yr ardal gan ymateb i adroddiadau am fân achwynion.

Ceisiadau lle'r oedd gwrthwynebiad (Adolygiadau/Apeliadau)

Ers y Pwyllgor Trwyddedu diwethaf, bu'n rhaid i'r Tîm Trwyddedu drefnu dau wrandawiad gan gynnull panel o'r is-bwyllgor i ddelio â'r canlynol:

1. Cais a wnaed o dan Adran 34 o Ddeddf Trwyddedu 2003 gan dafarn y Saddler's Arms, Y Stryd Fawr, Aberteifi i amrywio ei horiau trwyddedu, a

2. Cais am drwydded bersonol.

Achos #1: Tafarn y Saddlers Arms
Ar 4 Chwefror 2022, cafodd yr Awdurdod Trwyddedu gais am amrywiad llawn i ymestyn oriau Tafarn y Saddler's Arms, Y Stryd Fawr, Aberteifi. Roedd y cais yn gofyn am gynyddu'r oriau ar gyfer gwerthu alcohol tan 2am o nos Lun i nos Iau a than 2:30am o nos Wener i nos Sul. Roedd trwydded bresennol y dafarn yn awdurdodi gwerthu alcohol tan 1:00 o nos Lun i nos Iau a than 1:30 o nos Wener i nos Sul.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori o 28 diwrnod, cafwyd un sylw oddi wrth Gyngor Tref Aberteifi a sylw arall oddi wrth Gynghorydd Sir lleol. Ni chafwyd yr un sylw oddi wrth yr awdurdodau cyfrifol megis yr heddlu neu wasanaethau iechyd yr amgylchedd.

Wrth ymateb i'r sylwadau a ddaeth i law, cynigiodd yr ymgeisydd newid yr oriau o nos Lun i nos Iau gan gau hanner awr ynghynt. Bu i'r ddau wrthwynebydd wrthod y cynnig. Yn sgil hynny, cynhaliwyd gwrandawiad.

Cynhaliwyd gwrandawiad rhithiol gerbron Panel o'r Is-bwyllgor Trwyddedu. Yn ystod y Gwrandawiad, clywodd y Panel fod tri Hysbysiad am Ddigwyddiad Dros Dro wedi'u cyflwyno yn y gorffennol yn gofyn am ganiatâd i werthu alcohol ar y safle am yr un oriau a nodir yn y cais, fel y'i diwygiwyd. Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn ar 18/12/2021, 25/12/2021 a 01/01/22. Ni chafwyd yr un gŵyn ar ôl y digwyddiadau hyn.

Penderfyniad
Bu i'r Panel ystyried y cais a'r holl sylwadau a ddaeth i law yn ofalus gan benderfynu caniatáu'r cais am na fyddai'n effeithio ar yr hyn a wneir i hybu'r amcanion trwyddedu. Cafodd y cais a gyflwynwyd felly ei ganiatáu ond ychwanegwyd yr amod canlynol:

i. Bydd y Safle yn cynnal asesiad risg ysgrifenedig gan ystyried a oes angen defnyddio staff wrth y drws. Os bydd angen defnyddio staff wrth y drws, rhaid iddynt fod wedi eu cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.

Achos #2: Cais am Drwydded Bersonol
Ar 14 Mawrth 2022, cafodd yr Awdurdod gais am drwydded bersonol lle'r oedd yr ymgeisydd wedi datgelu euogfarn am yfed a gyrru.

Gan fod gan yr Ymgeisydd euogfarn am drosedd berthnasol, anfonwyd y cais at Heddlu Dyfed-Powys er mwyn iddynt ei ystyried.

Ar 25 Mawrth 2022, cyflwynodd Swyddog Trwyddedu Heddlu Dyfed-Powys sylwadau gan roi rhesymau perthnasol ynghylch yr amcan Trwyddedu trosedd ac anhrefn. Nododd y Swyddog nad oedd yr Ymgeisydd yn berson cymwys a phriodol i ddal trwydded bersonol oherwydd euogfarn yr Ymgeisydd am y drosedd yfed a gyrru a gyflawnwyd ar 1.1.2022.

Penderfyniad
Ar 12 Gorffennaf 2022, cynhaliwyd gwrandawiad rhithiol lle'r ymddangosodd yr Ymgeisydd gerbron Panel o'r Is-bwyllgor Trwyddedu. O ystyried natur yr euogfarn a pha mor ddiweddar ydoedd, penderfynodd y Panel beidio â rhoi'r drwydded am y byddai rhoi'r drwydded wedi golygu na fyddai'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn yn cael ei hybu. Cafodd y cais felly ei wrthod ac ni roddwyd trwydded bersonol i'r Ymgeisydd.

Hysbysiadau am Ddigwyddiadau Dros Dro
Dros fisoedd yr haf, fe welodd y Tîm Trwyddedu gynnydd yn nifer yr Hysbysiadau am Ddigwyddiadau Dros Dro. Cafwyd gostyngiad mawr yn nifer yr hysbysiadau am ddigwyddiadau yn ystod pandemig Covid-19 ond roedd nifer yr hysbysiadau a ddaeth i law yn ystod yr haf eleni lawer yn uwch na'r nifer cyn y pandemig.

Cyfnod	Nifer yr Hysbysiadau o Ddigwyddiadau
01/06/2019 - 31/08/2019	80
01/06/2020 - 31/08/2020	19 (gwrthodwyd 2)
01/06/2021 - 31/08/2021	38
01/06/2022 - 31/08/2022	128

Rhan B – Materion sy'n gysylltiedig â Deddf Gamblo 2005

Papur Gwyn – Adolygu'r Ddeddf Gamblo
Er bod disgwyl i Bapur Gwyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch y Ddeddf Gamblo gael ei gyhoeddi ym mis Medi, mae'r papur wedi'i ohirio am y pedwerydd tro, a hynny oherwydd digwyddiadau diweddar.

Mae Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig a swyddogion yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y cyd â rheoleiddwyr y diwydiant a'r Comisiwn Gamblo wedi bod yn adolygu'r cyfreithiau gamblo presennol ers 2019. Rhagwelir y bydd unrhyw ddiwygio arfaethedig yn arwain at newidiadau pellgyrhaeddol a gwelliannau i'r cyfreithiau gamblo presennol.

Argymhelliad: Bod yr Aelodau'n derbyn yr adroddiad hwn er gwybodaeth.

Rheswm dros yr argymhelliad:	Er mwyn rhoi gwybod i'r Aelodau Etholedig am y gwaith y mae'r Adain Drwyddedu wedi'i wneud ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a chyflwyno gwybodaeth berthnasol arall.
Fframwaith Polisi:	Mae'r swyddogaethau statudol a gyflawnir gan y Tîm Trwyddedu yn elfen hanfodol o fframwaith polisi Diogelu'r Cyhoedd.
Blaenoriaethau Corfforaethol:	• Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	O fewn y gyllideb
Maes Gwasanaeth:	Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Pwerau Statudol:	Deddf Trwyddedu 2003, Deddf Gamblo 2005 ac unrhyw Reoliadau a wneir o dan y Deddfau hyn.
Papurau Cefndir:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams (Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)
Swyddog Adrodd:	Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu)
Dyddiad:	14 Medi 2022